# Maniffesto Llyfrgell Gyhoeddus IFLA-UNESCO 2022

Mae rhyddid, ffyniant a datblygiad cymdeithas ac unigolion yn werthoedd dynol sylfaenol. Dim ond trwy allu dinasyddion gwybodus i arfer eu hawliau democrataidd ac i chwarae rhan weithredol mewn cymdeithas y byddant yn cael eu gwireddu. Mae cyfranogiad adeiladol a datblygiad democratiaeth yn dibynnu ar addysg foddhaol yn ogystal ag ar fynediad am ddim a diderfyn i wybodaeth, meddwl, diwylliant a gwybodaeth.

Mae'r llyfrgell gyhoeddus, y porth lleol i wybodaeth, yn darparu amod sylfaenol ar gyfer dysgu gydol oes, gwneud penderfyniadau annibynnol a datblygiad diwylliannol yr unigolyn a grwpiau cymdeithasol. Mae'n sail i gymdeithasau gwybodaeth iach trwy ddarparu mynediad a galluogi creu a rhannu gwybodaeth o bob math, gan gynnwys gwybodaeth wyddonol a lleol heb rwystrau masnachol, technolegol na chyfreithiol.

Ym mhob gwlad, ond yn enwedig yn y byd datblygol, mae llyfrgelloedd yn helpu i sicrhau bod yr hawliau i addysg a chyfranogiad mewn cymdeithasau gwybodaeth ac ym mywyd diwylliannol y gymuned yn hygyrch i gynifer o bobl â phosibl.

Mae'r Maniffesto hwn yn datgan cred UNESCO yn y llyfrgell gyhoeddus fel grym byw ar gyfer addysg, diwylliant, cynhwysiant a gwybodaeth, fel cyfrwng hanfodol ar gyfer datblygu cynaliadwy, ac ar gyfer cyflawni heddwch a lles ysbrydol unigol trwy feddyliau pob unigolyn.

Felly mae UNESCO yn annog llywodraethau cenedlaethol a lleol i gefnogi ac ymgysylltu'n weithredol â datblygu llyfrgelloedd cyhoeddus.

## Y Llyfrgell Gyhoeddus

Y llyfrgell gyhoeddus yw'r ganolfan wybodaeth leol, sy'n sicrhau bod pob math o wybodaeth ar gael yn hawdd i'w defnyddwyr. Mae'n elfen hanfodol o gymdeithasau gwybodaeth, gan addasu'n barhaus i ddulliau newydd o gyfathrebu i gyflawni eu mandad o ddarparu mynediad cyffredinol i wybodaeth a galluogi defnydd ystyrlon o wybodaeth i bawb. Mae'n darparu gofod sy'n hygyrch i'r cyhoedd ar gyfer cynhyrchu gwybodaeth, rhannu a chyfnewid gwybodaeth a diwylliant, a hyrwyddo ymgysylltiad dinesig.

Mae llyfrgelloedd yn creu cymuned, gan estyn allan yn rhagweithiol i gynulleidfaoedd newydd a defnyddio gwrando effeithiol i gefnogi llunio gwasanaethau sy'n diwallu anghenion lleol ac yn cyfrannu at wella ansawdd bywyd. Mae’r cyhoedd yn ymddiried yn eu llyfrgell, ac yn gyfnewid am hynny, uchelgais y llyfrgell gyhoeddus yw bod yn rhagweithiol wrth ddarparu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth i’w cymuned.

Darperir gwasanaethau'r llyfrgell gyhoeddus ar sail mynediad cyfartal i bawb, waeth beth fo'u hoedran, ethnigrwydd, rhyw, crefydd, cenedligrwydd, iaith, statws cymdeithasol, ac unrhyw nodwedd arall. Rhaid darparu gwasanaethau a deunyddiau penodol ar gyfer y defnyddwyr hynny na allant, am ba bynnag reswm, ddefnyddio'r gwasanaethau a'r deunyddiau rheolaidd, er enghraifft lleiafrifoedd ieithyddol, pobl ag anableddau, sgiliau digidol neu gyfrifiadurol gwael, gallu llythrennedd gwael neu bobl mewn ysbyty neu garchar.

Rhaid i bob grŵp oedran allu dod o hyd i ddeunydd sy'n berthnasol i'w anghenion. Rhaid i gasgliadau a gwasanaethau gynnwys pob math o gyfryngau priodol a thechnolegau modern yn ogystal â deunyddiau traddodiadol. Mae ansawdd uchel, perthnasedd i anghenion ac amodau lleol, sy'n adlewyrchu amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol y gymuned yn hanfodol. Rhaid i ddeunydd adlewyrchu tueddiadau cyfredol ac esblygiad cymdeithas, yn ogystal â'r cof am ymdrechion a dychymyg dynol.

Ni ddylai casgliadau a gwasanaethau fod yn destun unrhyw fath o sensoriaeth ideolegol, wleidyddol na chrefyddol, na phwysau masnachol.

## Cenhadaeth y Llyfrgell Gyhoeddus

Dylai'r cenadaethau allweddol canlynol sy'n ymwneud â gwybodaeth, llythrennedd, addysg, cynhwysiant, cyfranogiad dinesig a diwylliant fod wrth wraidd gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Trwy'r cenadaethau allweddol hyn, mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn cyfrannu at y Nodau Datblygu Cynaliadwy ac adeiladu cymdeithasau mwy cyfiawn, dyngarol a chynaliadwy.

- Darparu mynediad i ystod eang o wybodaeth a syniadau yn rhydd o sensoriaeth, cefnogi addysg ffurfiol ac anffurfiol ar bob lefel yn ogystal â dysgu gydol oes, gan alluogi pobl ym mhob cyfnod o fywyd i fynd ar drywydd gwybodaeth yn gyson, yn wirfoddol ac yn hunangynhaliol;
- darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad creadigol personol, ac ysgogi dychymyg, creadigrwydd, chwilfrydedd ac empathi;
- creu a chryfhau arferion darllen mewn plant o'u genedigaeth i'w bywyd fel oedolion;
- cychwyn, cefnogi a chymryd rhan mewn gweithgareddau a rhaglenni llythrennedd i feithrin sgiliau darllen ac ysgrifennu, a hwyluso datblygiad sgiliau llythrennedd cyfryngau a gwybodaeth a llythrennedd digidol i bawb o bob oed, mewn ysbryd o arfogi cymdeithas ddemocrataidd wybodus;
- darparu gwasanaethau i'w cymunedau yn bersonol ac o bell trwy dechnolegau digidol gan ganiatáu mynediad at wybodaeth, casgliadau a rhaglenni pryd bynnag y bo modd;
- sicrhau mynediad i bawb at bob math o wybodaeth gymunedol a chyfleoedd ar gyfer trefniadaeth gymunedol, er mwyn cydnabod rôl greiddiol y llyfrgell yng ngwead cymdeithas;
- darparu mynediad i'w cymunedau at wybodaeth wyddonol, megis canlyniadau ymchwil a gwybodaeth iechyd a all effeithio ar fywydau defnyddwyr, yn ogystal â galluogi cyfranogiad mewn cynnydd gwyddonol;
- darparu gwasanaethau gwybodaeth digonol i fentrau, cymdeithasau a grwpiau buddiannau lleol;
- cadwraeth a mynediad at ddata, gwybodaeth, a threftadaeth leol a chynhenid (gan gynnwys y traddodiad llafar), gan ddarparu amgylchedd lle gall y gymuned leol chwarae rhan weithredol wrth adnabod deunyddiau i'w dal, eu cadw a'u rhannu, yn unol â dymuniadau'r gymuned;
- meithrin deialog rhyngddiwylliannol a ffafrio amrywiaeth ddiwylliannol;
- hyrwyddo cadwraeth a mynediad ystyrlon i fynegiadau diwylliannol a threftadaeth, gwerthfawrogiad o'r celfyddydau, mynediad agored at wybodaeth, ymchwil a datblygiadau gwyddonol arloesol, fel y'i

mynegir yn y cyfryngau traddodiadol, yn ogystal â deunydd digidol o’r newydd a deunydd wedi’i ddigideiddio.

## Ariannu, deddfwriaeth a rhwydweithiau

Mewn egwyddor, bydd mynediad i adeilad a gwasanaethau'r llyfrgell gyhoeddus yn rhad ac am ddim. Mae'r llyfrgell gyhoeddus yn gyfrifoldeb awdurdodau lleol a chenedlaethol. Rhaid iddo gael ei ategu gan ddeddfwriaeth benodol wedi'i diweddaru sy'n cyd-fynd â chytuniadau a chytundebau rhyngwladol. Rhaid iddo gael ei ariannu gan lywodraethau cenedlaethol a lleol. Rhaid iddo fod yn elfen hanfodol o unrhyw strategaeth hirdymor ar gyfer diwylliant, darparu gwybodaeth, llythrennedd ac addysg.

Yn yr oes ddigidol, rhaid i ddeddfwriaeth hawlfraint ac eiddo deallusol sicrhau bod gan lyfrgelloedd cyhoeddus yr un gallu i gaffael a rhoi mynediad i gynnwys digidol ar yr un telerau rhesymol ag adnoddau corfforol.

Er mwyn sicrhau cydlyniad a chydweithrediad llyfrgelloedd cenedlaethol, rhaid i ddeddfwriaeth a chynlluniau strategol hefyd ddiffinio a hyrwyddo rhwydwaith llyfrgelloedd cenedlaethol yn seiliedig ar safonau gwasanaeth cytunedig.

Rhaid cynllunio’r rhwydwaith llyfrgelloedd cyhoeddus mewn perthynas â llyfrgelloedd cenedlaethol, llyfrgelloedd rhanbarthol, llyfrgelloedd ymchwil a llyfrgelloedd arbennig yn ogystal â llyfrgelloedd mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion.

## Gweithredu a rheoli

Mae’n rhaid llunio polisi clir sy'n diffinio amcanion, blaenoriaethau a gwasanaethau mewn perthynas ag anghenion y gymuned leol. Mae pwysigrwydd gwybodaeth leol a chyfranogiad cymunedol yn werthfawr i'r broses hon, a dylid cynnwys cymunedau lleol wrth wneud penderfyniadau.

Mae'n rhaid i'r llyfrgell gyhoeddus gael ei threfnu'n effeithiol a rhaid cynnal safonau gweithredu proffesiynol.

Mae'n rhaid i wasanaethau fod yn hygyrch yn gorfforol neu'n ddigidol i bob aelod o'r gymuned. Mae hyn yn gofyn am adeiladau llyfrgell sydd wedi'u lleoli'n dda gyda chyfarpar, cyfleusterau darllen ac astudio da, yn ogystal â thechnolegau perthnasol a digon o oriau agor sy'n gyfleus i'r defnyddwyr. Mae hefyd yn awgrymu gwasanaethau allgymorth ar gyfer y rhai na allant ymweld â'r llyfrgell.

Mae’n rhaid addasu'r gwasanaethau llyfrgell i wahanol anghenion cymunedau mewn ardaloedd gwledig a threfol, yn ogystal ag anghenion grwpiau ymylol, defnyddwyr ag anghenion arbennig, defnyddwyr amlieithog, a Phobloedd Brodorol o fewn y gymuned.

Mae'r llyfrgellydd yn gyfryngwr gweithredol rhwng defnyddwyr ac adnoddau, yn ddigidol ac yn draddodiadol. Mae adnoddau dynol a materol digonol, yn ogystal ag addysg broffesiynol a pharhaus y llyfrgellydd, er mwyn cwrdd â'r heriau yn awr ac yn y dyfodol, yn anhepgor i sicrhau gwasanaethau digonol. Dylai arweinwyr ymgynghori â gweithwyr llyfrgell proffesiynol ynghylch y diffiniad meintiol ac ansoddol o adnoddau digonol.

Mae'n rhaid darparu rhaglenni allgymorth ac addysg defnyddwyr er mwyn helpu defnyddwyr i elwa o'r holl adnoddau.

Dylai ymchwil parhaus ganolbwyntio ar werthuso effaith llyfrgell a chasglu data, er mwyn dangos budd cymdeithasol llyfrgelloedd i lunwyr polisi. Dylid casglu data ystadegol yn y tymor hir, gan fod manteision llyfrgelloedd o fewn cymdeithas i'w gweld yn aml dros genedlaethau.

## Partneriaethau

Mae sefydlu partneriaethau yn hanfodol er mwyn i lyfrgelloedd gyrraedd cyhoedd ehangach a mwy amrywiol. Mae'n rhaid sicrhau cydweithrediad gyda phartneriaid perthnasol – er enghraifft, grwpiau defnyddwyr, ysgolion, sefydliadau anllywodraethol, cymdeithasau llyfrgelloedd, busnesau, a gweithwyr proffesiynol eraill ar lefel leol, rhanbarthol, cenedlaethol yn ogystal â rhyngwladol.

## Gweithredu'r Maniffesto

Anogir y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel genedlaethol a lleol a'r gymuned lyfrgelloedd fyd-eang yn gyffredinol, i weithredu'r egwyddorion a fynegir yn y Maniffesto hwn.

Cymeradwywyd gan Fwrdd Llywodraethu IFLA
18 Gorffennaf 2022